Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Dr Helen Paterson
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

24 Ionawr 2013

Annwyl Dr Paterson

**YMWELIAD MONITRO AG AWDURDODAU LLEOL SY'N CAEL EU MONITRO GAN ESTYN YN DILYN AROLYGIAD GAALlPPhI**

Yn dilyn canlyniad yr arolygiad o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Nhachwedd 2010, nodwyd bod angen i'r awdurdod gael ymweliad monitro gan Estyn fel gweithgarwch dilynol i'r arolygiad. Cynhaliwyd ymweliad monitro gan dîm o arolygwyr Estyn ym Mawrth 2012, ac yn ystod yr ymweliad, barnwyd y dylai'r awdurdod aros yn y categori gweithgarwch dilynol o gael ei fonitro gan Estyn. Cynhaliwyd ymweliad monitro arall o 15 - 17 Ionawr 2013, ac mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau'r ymweliad hwnnw.

Arweiniwyd tîm o dri arolygydd gan Alun Connick AEM i adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn deillio o'r arolygiad cynharach, i ystyried y cyfeiriad teithio cyffredinol o ran perfformiad yr awdurdod, ac i nodi unrhyw feysydd eraill i'w gwella.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr ac uwch swyddogion. Aethant ati i graffu ar ddogfennaeth, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn unol â phob un o argymhellion yr arolygiad. Fe wnaethant hefyd ystyried deilliannau o holl arolygiadau Estyn yn yr awdurdod a gynhaliwyd ers yr arolygiad gwreiddiol yn Ionawr 2011. Cysylltodd y tîm â Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) hefyd.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adrodd y tîm eu canfyddiadau wrth uwch swyddogion yr awdurdod.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Ers ymweliad monitro blaenorol Estyn â CBS Wrecsam ym Mawrth 2012, gwnaed nifer o newidiadau arwyddocaol i aelodaeth etholedig y Cyngor. Mae aelodau


Iechyd ar Waith / Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL Aur
INVESTORS IN PEOPLE Gold

etholedig newydd yn dangos lefel dda o gefnogaeth i'r prif weithredwr o ran gwella gwasanaethau ac o ran helpu i ddatblygu ffocws craffach ar ddeilliannau ac effaith gwasanaethau ymhlith staff. Erbyn hyn, mae aelodau yn cynnig momentwm da ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau.

Mae gan yr awdurdod lleol gynllun gweithredu defnyddiol ac mae'n amlinellu ynddo y modd y mae'n bwriadu bodloni'r argymhellion a wnaed yn yr ymweliad arolygu a monitro. Mae wedi gwella'r modd y mae'n monitro cynnydd tuag at fodloni'r amcanion hyn ac mae wedi gwella trylwyredd a chywirdeb ei arfarniadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad wedi gwella er 2010 ac mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru erbyn hyn.

Y llynedd, rhoddodd yr awdurdod gefnogaeth dda i rai ysgolion uwchradd a oedd yn tanberfformio, a galluogodd hyn iddynt wella perfformiad mwyafrif o ddysgwyr yn yr ysgolion hynny. Fodd bynnag, mae perfformiad ar draws yr awdurdod yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd, mae traean o ysgolion yr awdurdod yn y 25% isaf. Mae'r awdurdod wedi gwella'r ymgysylltu â'r nifer fach o ysgolion heriol a oedd yn amharod i weithio gyda nhw yn y gorffennol. Mae perfformiad yr ysgolion hyn yn adlewyrchu'r gwaith hwn gan yr awdurdod. Mae'n ymgysylltu â bron pob un o'r ysgolion erbyn hyn, gan eu dwyn i gyfrif, gan alluogi'r awdurdod i gefnogi a herio yn fwy effeithiol er mwyn gwella perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Wrecsam wedi bodloni neu ragori ar bron pob un o'r meincnodau disgwyliedig a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn ystyried lefelau prydau ysgol am ddim (PYDd). Mae presenoldeb yn dda mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae cyfraddau wedi gwella ers y llynedd. Mae gan ysgolion Wrecsam hanes da o beidio â gwahardd disgyblion yn barhaol.

At ei gilydd, barnodd y tîm fod yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, bydd yr awdurdod yn cael ei dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol o gael ei fonitro gan Estyn. Bydd eich Arolygydd Cyswllt Estyn yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy'r rôl gyswllt arferol gyda'r awdurdod.

## Argymhellion

Dylai'r awdurdod gynnal cyflymder da'r cynnydd a fu'n amlwg ers yr arolygiad yn Ionawr 2011 er mwyn mynd i'r afael â'r holl argymhellion yn llawn.

## Cynnydd o ran yr argymhellion yn yr adroddiad

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 1** | **Egluro'r amcanion ar gyfer addysg ym mlaenoriaethau'r cyngor ac adlewyrchu'r rhain yn ei gynlluniau** |

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymgynghori'n dda gyda rhanddeiliaid i nodi a chytuno ar ei amcanion a'i flaenoriaethau. Mae Cynllun Cyngor yr awdurdod yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol hyn a'r deilliannau y mae angen iddo eu cyflawni yn glir. Mae wedi llunio crynodebau defnyddiol sy'n ei gwneud yn hawdd i bawb sydd â diddordeb ei ddeall.

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da wrth alinio cynlluniau gweithredol gwasanaethau gyda chynlluniau ar y cyd a chynlluniau corfforaethol y cyngor. Mae'r broses cynllunio adrannol newydd wedi gwella cysondeb cynlluniau gwasanaeth, sydd bellach yn cael eu llywio'n effeithiol gan amcanion lefel uchel yr awdurdod, ac yn cyfrannu atynt. Mae dogfen drosolwg ddefnyddiol yn crynhoi'r holl flaenoriaethau adrannol.

Mae gan wasanaethau addysg gynlluniau gweithredol sy'n rhoi ystyriaeth dda i ddangosyddion prif ddeilliannau'r cyngor ar gyfer addysg. Mae dealltwriaeth rheolwyr gwasanaeth o gynllunio yn seiliedig ar ddeilliannau wedi gwella, gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar effaith gwasanaethau wrth gynllunio amcanion cynllunio a gwella. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r cynlluniau gwasanaeth presennol yn adlewyrchu hyn eto, ac nid yw rhai ohonynt yn cynnwys ffocws digon cryf ar arfarnu deilliannau. Mae'r awdurdod yn cydnabod hyn ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae angen iddo'i wneud i fireinio cynlluniau yn y dyfodol. Dywed uwch reolwyr eu bod yn hyderus y bydd cynllunio amcanion yn seiliedig ar ddeilliannau yng nghynlluniau gweithredol y flwyddyn nesaf yn gwella. Bydd hyn yn ei dro yn helpu'r awdurdod lleol i fonitro ac arfarnu effaith gwasanaeth yn well.

Caiff y cynnydd a wna pob gwasanaeth tuag at fodloni ei flaenoriaethau a'i amcanion ei fonitro'n rheolaidd a'i adrodd yn glir i'r Bwrdd Gweithredol bob chwarter.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 2** | **Sicrhau bod rolau'r bwrdd gweithredol a chraffu yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc** |

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno rhaglen ymsefydlu effeithiol a rhaglen hyfforddi graidd ar gyfer aelodau. Caiff aelodau newydd gymorth mentora defnyddiol sy'n eu helpu i chwarae rôl weithredol o fewn y cyngor. Mae llawer ohonynt wedi cael hyfforddiant i'w helpu i ddeall yn llawn yr egwyddorion cynllunio sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau.

Ym Mai 2012, derbyniodd y cyngor gynigion i ddiwygio'r cyfansoddiad newydd ar gyfer y cyngor, a gryfhaodd weithdrefnau'r Bwrdd Gweithredol a gweithdrefnau Craffu. Ymgorfforodd adolygiad o ddisgrifiadau rôl aelodau hefyd, sy'n rhoi pwyslais gwell ar gyfrifoldebau aelodau arweiniol i arwain ar eu meysydd portffolio. O ganlyniad, cafwyd cyfranogiad cryfach yn y broses gwneud penderfyniadau a

gwelliannau yn eu hatebolrwydd.  Mae Arweinydd y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth dda i ddiddordebau, cefndiroedd ac arbenigedd aelodau wrth ddyrannu cyfrifoldebau i aelodau arweiniol.

Mae’r aelod arweiniol dros addysg yn meddu ar ddealltwriaeth glir o ba mor dda y mae gwasanaethau addysg yn perfformio.  Ers yr etholiadau lleol ym Mai 2012, mae wedi ymgymryd â rôl weithredol o ran cyflwyno adroddiadau i’r Pwyllgor Craffu, ac mae’n gweithio’n dda gyda swyddogion yr awdurdod lleol i’w helpu i gynllunio a datblygu adroddiadau ar berfformiad.

Mae aelodau’r Pwyllgor Craffu yn cyflawni eu rôl i gynnig her i wasanaethau addysg yn dda.  Mae Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu yn ystyried adroddiadau craffu yn ofalus ac yn cael digon o ddata a gwybodaeth ar y cyfan i’w galluogi i gyfeirio eu her yn briodol.  Er enghraifft, mae Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg, Diogelu a Lles yn awr yn gallu monitro a herio rheolwyr yn drylwyr o ran eu cynnydd tuag at fodloni argymhellion Estyn, ac mae hynny wedi arwain at welliant.  O bryd i’w gilydd, nid yw’r data a gânt yn canolbwyntio digon ar ddeilliannau gwasanaeth o hyd.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 3** | **Gwella ansawdd a chysondeb arfarnu gwasanaethau i lywio cynllunio yn well** |

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae trefniadau da i fonitro gwaith penaethiaid gwasanaeth gan y cyfarwyddwr corfforaethol a’r aelod arweiniol ar gyfer addysg.  Mae’r system gwerthuso perfformiad flynyddol yn cysylltu perfformiad unigol staff â’u hamcanion gweithredol yn effeithiol.  Rhoddir hyfforddiant parhaus effeithiol i helpu staff i arfarnu a herio eu perfformiad eu hunain.  Mae ymwybyddiaeth gynyddol gan bob un o’r staff yn yr adran dysgu gydol oes ynglŷn â’r modd y mae eu rôl yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion corfforaethol.  Mae hyn yn golygu bod mwy o reolwyr a staff yn herio ei gilydd mewn cyfarfodydd ynghylch pa ddeilliannau y dylid eu cyflawni yn sgil gwella gwasanaethau, sydd yn ei dro yn gwella ffocws eu cynllunio.

Mae adroddiad hunanarfarnu 2012 yn canolbwyntio ar ddeilliannau ac maent yn arfarnol.  Mae’n amlinellu’n glir y cynnydd y mae’r awdurdod wedi’i wneud yn erbyn yr argymhellion o arolygiad blaenorol Estyn.  Adroddwyd am gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad yn dda wrth aelodau etholedig, partneriaid fframwaith a rhanddeiliaid eraill.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 4** | **Datblygu trefniadau cyson ar gyfer adrodd am berfformiad mewn gwasanaethau addysg ac ar draws y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc** |

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae trosolwg clir, ar y cyd o berfformiad addysg ar draws yr awdurdod. Cyflawnir hyn trwy adrodd yn rheolaidd wrth bwyllgor craffu a phwyllgor gweithredol diwygiedig y cyngor. Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth wella'r ffordd y mae'n adrodd ar berfformiad yn erbyn ei gynllun ar y cyd. Mae'n parhau i ymgorffori ei ddull o adrodd yn seiliedig ar ddeilliannau trwy grwpiau deilliannau ar gyfer y fframwaith plant a phobl ifanc (PPhI), sy'n arfarnu perfformiad gwasanaethau. Mae Grŵp Monitro ac Adolygu yn cyfarfod bob chwarter ac mae proses effeithiol ar waith i gael adroddiadau gan holl gadeiryddion y grwpiau deilliannau. Mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau deilliannau yn llunio cardiau adroddiad cyflawn, sy'n dangos p'un a yw'r awdurdod yn symud tuag at ei amcanion arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r defnydd o ddangosyddion blynyddol lefel uwch yn golygu na all yr awdurdod fesur ac ymateb yn ddigon cyflym bob tro pan fydd perfformiad yn dechrau dirywio ymhen blwyddyn. Mae'r awdurdod yn cydnabod hyn ac mae wedi sefydlu system newydd o adrodd eithriadol lle mae grwpiau deilliannau yn adrodd yn fwy rheolaidd ar gamau sy'n destun pryder.

Mae gan yr awdurdod agenda ddefnyddiol ar ddatblygu data ac mae'n gwneud cynnydd da o ran nodi'r data ychwanegol y mae angen iddo ei gasglu i fireinio'r ffordd y mae'n adrodd ar berfformiad.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 5** | **Lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd yn unol â strategaeth y cyngor ar gyfer ad-drefnu ysgolion a ailaliniwyd** |

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu cynigion arloesol i leihau lleoedd gwag. Yr awdurdod sydd â'r ganran isaf ond un o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd yng Nghymru ar hyn o bryd, er bod canran y lleoedd gwag ar lefel uwchradd yn parhau i fod yn uchel, a dyma'r chweched uchaf yng Nghymru. Er 2010, bu gostyngiad bach yn nifer y lleoedd gwag.

Mae'r awdurdod wedi gwella ymhellach ei ddull ar gyfer rhagweld lleoedd ysgol, ac mae bellach yn adolygu cywirdeb ei ragolygon trwy eu cymharu â'r nifer gwirioneddol o dderbyniadau. Mae hyn yn eu galluogi i fireinio eu methodoleg mewn perthynas ag ysgolion unigol.

Yn ddiweddar, cymeradwywyd astudiaeth dichonoldeb ar ddefnyddio lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd gan y Bwrdd Gweithredol i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth ieuenctid. Bydd hyn yn archwilio cynigion i adleoli gwasanaethau sydd wedi eu lleoli yng Nghanolfan Erlas ar hyn o bryd, gan ryddhau'r adeilad hwnnw o ganlyniad. Bydd yr astudiaeth hefyd yn archwilio ystyriaethau i ddarparu adeiladau ar gyfer defnyddio'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn yn

mynd rhagddo’n dda a disgwylir y bydd yn arwain at ostyngiad o ryw 360 o leoedd gwag erbyn Medi 2014.

Yn ychwanegol, mae cynnig cytûn yr awdurdod ar Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnwys prosiect i sefydlu parth dysgu hyblyg yn un o’r ddwy ysgol uwchradd yng nghanol y dref. Ar ôl ei gwblhau yn 2016, disgwylir i’r prosiect hwn leihau nifer y lleoedd gwag yn y sector uwchradd ymhellach, gan 200 o leoedd o leiaf.

Mae’r awdurdod wedi adolygu cylch gwaith ei Fwrdd Partneriaeth Dysgu yn ddiweddar. Mae’r Bwrdd yn gweithio’n dda i ddatblygu model amgen ar gyfer dysgu ôl-16 yn yr awdurdod. Mae’r is-grŵp sy’n arwain y gwaith yn cynnwys cynrychiolwyr o’r holl ddarparwyr perthnasol. Mae’r gwaith yn canolbwyntio’n briodol ar faterion sy’n ymwneud ag ansawdd a gwerth am arian a amlygwyd yn adroddiadau blaenorol Estyn. Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i’r egwyddorion mewn gweithdy ar gyfer yr holl aelodau yn Nhachwedd 2012, a bydd y cynigion terfynol yn cael eu cyflwyno i’r Bwrdd Gweithredol ym fis Mawrth eleni.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 6** | **Gwella effeithiolrwydd y trefniadau i fynd i’r afael â diffygion yng nghyllidebau ysgolion uwchradd** |

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae’r awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella effeithiolrwydd ei drefniadau i fynd i’r afael â diffygion yng nghyllidebau ysgolion uwchradd. Cytunwyd ar ddogfen arweiniad yr awdurdod, sef ‘Proses Her a Chymorth ar gyfer Ysgolion sydd â Diffygion yn eu Cyllideb’ gydag ysgolion erbyn Medi 2012 ac mae bellach ar waith. Mae’r ddogfen yn amlinellu rhesymeg a phroses briodol ar gyfer cytuno ar ddiffygion trwyddedig ac yn esbonio’n glir y gweithdrefnau ar gyfer monitro pa mor dda y mae ysgolion yn cadw at gynlluniau cyllideb cytûn. Mae hefyd yn amlinellu’r lefelau ymyrraeth y gallai’r awdurdod eu defnyddio pan nad yw ysgolion yn rheoli diffygion yn unol â’r hyn a amlinellir yn y cytundeb ‘Diffyg Trwyddedig’.

Mae’r arweiniad eisoes yn rhoi cymorth defnyddiol i swyddogion yn eu trafodaethau gydag ysgolion. Mae wedi dechrau cael effaith ar leihau nifer yr ysgolion sydd â diffygion yn y sector cynradd ac uwchradd o ddeg ym Mawrth 2011 i wyth ym Mawrth 2012. Mae’r awdurdod wedi rhoi cynlluniau cytûn ar waith gyda saith ysgol uwchradd arall i gyflwyno cyllideb gytbwys erbyn 31 Mawrth 2013 ac i gyflawni hynny gyda’r ddwy ysgol arall erbyn 31 Mawrth 2014.

Mae’r awdurdod wedi sefydlu systemau trylwyr i fonitro’r cyllidebau hyn ac mae’r data diweddaraf yn awgrymu y bydd y deilliannau gofynnol yn cael eu cyflawni.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru ac i Swyddfa Archwilio Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol